Mae Mwslimiaid yn bwysig

Mae tua 50,000 o Fwslimiaid yn byw yng Nghymru heddiw ac yn wynebu mwyfwy o gasineb o achos eu crefydd. Dydy'r cynnydd parhaus yn ymosodiadau Islamoffobig yn erbyn menywod ddim yn iawn. Dylid peidio â'u targedu nhw yn sgil eu dewis o wisgo'r wisg Fwslimaidd, yr hijab a'r niqab. Ddylen nhw ddim teimlo bod eu hawliau'n cael eu gwanhau na'u tanseilio. Dylen nhw deimlo fel bod modd iddynt siarad yn uchel am hyn. Dylai menywod Mwslimaidd fod â'r hawl i deimlo'n gyfforddus yn yr hyn y maen nhw'n ei wisgo heb fod yn ofn cerdded ar y stryd. Rydw i am weithio gyda myfyrwyr Mwslimaidd i weld sut mae UCM Cymru yn gallu eu cefnogi nhw i frwydro yn erbyn Islamoffobia.

Byddaf yn:

- Codi ymwybyddiaeth o eithafoedd Islamoffobia. Gellid gwneud hyn drwy weithio gyda'r mudiad MEND er mwyn cynnal gweithdai a sesiynau siarad.
- Gweithio gyda myfyrwragedd Mwslimaidd i hybu hyder mewn siarad am eu teimladau a'u profiadau
- Gweithio gydag amryw o fudiadau sy'n canolbwyntio ar fenywod Mwslimaidd ac Islamoffobia, fel Rhwydwaith y Menywod Mwslimaidd yn y DU.



Brwydro yn erbyn y toriadau

Ledled y byd, bydd 1 o bob 3 menyw yn cael profiad o drais rhywiol. Bydd 1 o bob 7 menyw yn dioddef aflonyddu rhywiol ar y campws, mae 20% o fyfyrwragedd wedi bod dan bwysedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, 31% wedi cael eu teimlo'n anaddas ac mae 34% wedi dioddef cam-drin neu ymosod rhywiol. Y ffigyrau ofnadwy hyn yw'r realiti y mae rhaid i ni fel menywod eu hwynebu bob dydd. Fel rhywun sydd wedi cael profiad o ymddygiad anaddas, rydw i'n deall bod trais rhywiol a chydsyniad yn fater parhaus ac mae angen i ni fynd i'r afael ag ef, ond yn hytrach na gweld gweithredu cadarnhaol gan y llywodraeth, rydyn ni'n gweld gwasanaethau cymorth hollbwysig yn cael eu torri. Mae menywod sydd wedi cael profiad o drais rhywiol neu drais yn y cartref bellach yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lochesau i aros ynddynt. Rydw i'n credu y dylai dioddefwyr trais rhywiol a thrais yn y cartref deimlo'n ddiogel ac y dylen nhw allu cael lloches. Mae angen i ni frwydro yn erbyn y toriadau hyn i sicrhau bod y cymorth ar gael. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn a dechrau trafodaeth genedlaethol ynglŷn â sut mae modd i ni ddod ynghyd fel cymdeithas i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'u hatal nhw rhag digwydd.

Byddaf yn:

- Lobïo'r llywodraeth a'i dal hi i gyfrif ar y materion hyn a'r effaith a geir arnom ni fel myfyrwyr
- Parhau â gwaith Hawlio'r Nos yn ôl a'r gwaith gyda mudiadau fel 'Ymddiriedolaeth y Goroeswyr' i godi ymwybyddiaeth ac i annog y rheiny i siarad.
- Lobïo'r llywodraeth i gyflwyno addysg rhyw a pherthnasoedd gynhwysol a chynhwysfawr sy'n crybwyll cydsyniad ar bob lefel addysg

Brwydro yn erbyn Arwahanu Rhyweddol mewn Prentisiaethau

Dylai pob prentisiaeth fod yn agored i bob myfyriwr, beth bynnag fo'u rhywedd. Serch hynny, oherwydd y ffordd y caiff plant eu magu i gadw at rolau rhyweddol, disgwyliadau cymdeithasol ac yn sgil y system addysgol a'r cyngor gyrfa a ddarperir i oedolion ifanc, mae menywod yn fwy tebygol o ddechrau ar lwybrau gyrfa sy'n cael eu hystyried yn rhai ar gyfer menywod yn draddodiadol. Er enghraifft, mae ymchwil diweddar yn dangos bod tua 70% o ferched yn teimlo eu bod nhw'n fwy addas am yrfa mewn harddwch, gofal plant a nyrsio. Rydw i'n credu na ddylid cyfyngu menywod gan rywedd ond dylid eu hannog nhw i ystyried yr holl opsiynau. Mae menywod mewn prentisiaethau hefyd yn fwy tebygol o gael eu talu'n llai tra bod dynion yn cael eu talu tua 21% yn fwy. Dydy'r bwlch cyflog rhyweddol hwn ddim yn iawn ac mae'n arwydd arall eto nad yw llwybrau gyrfa, a gaiff eu hystyried yn rhai ar gyfer menywod yn draddodiadol, yn cael digon o werth na'u talu digon.

Byddaf yn:

- Gweithio gyda chynrychiolwyr dysgwyr er mwyn mynd i'r afael â'r cyngor a roddir mewn prentisiaethau a gweithio gyda myfyrwyr i gynnal gweithdai er mwyn helpu dileu'r normalrwydd rhyweddol hwn.
- Gweithio gyda mudiadau prentisiaid a'u dal nhw i gyfrif ar y cyfleoedd cyfartal sydd ar gael yn eu mudiadau.
- Gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Menywod Ifanc ar lansiad #PrentisiaethauMenywod